

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Rhydymain  
Nos Fawrth Gorffennaf 27, 2016 am 7:30 o'r gloch.**

**Preseanol** Cyngorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Huw A. Evans, Barry Jones, Gerallt Griffith. Hefyd Henry M. Edwards.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins a Mordaf Roberts.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 26, 2016**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 26, 2016**

Eitem 5. Eitem 6.ch. Llythyr (28/7/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent eisiau gwybod os Cyngor Gwynedd yw ein penderfyniad i wasanaethu ein biniau halen. Rhoddwyd gwybod iddynt i Cyngor Gwynedd wasanaethu ein biniau halen. Rhoddwyd gwybod hefyd bod y biniau halen yn llawn.

Llythyr ateb (1/8/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod byddent yn cysylltu â ni ym mis Medi i roi manylion y gwasanaeth.

Eitem 5. Eitem 6.b. b. Llythyr ateb (12/8/2016) oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn symud y coed.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (12/8/2016) oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd arwyddion yn cael eu gosod ar lwybr cyhoeddus / llwybr ceffylau.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (29/7/2016) oddi wrth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Meirion 2016. Amgau mae rhestr o enillwyr y Raffl Fawr, a hefyd gwybodaeth am Sioe Sir Meirion bydd ar Fferm Rhug, Corwen.

b. Llythyr (16/8/2016) oddi wrth Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod derbyniwyd dim gwrthwynebiad o dan Rhybudd Statudol i gau Ysgol Machreth. Oherwydd hyn bydd yr ysgol yn cau ar 31 Awst 2016 a bydd lle yn cael ei gynnig i'r disgyblion yn Ysgol Ieuan Gwynedd a bydd cludiant i'r ysgol yn cael ei gynnig.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEDI 27, 2016

c. Llythyr (26/8/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith atgyweirio yn cael ei wneud ar Ffordd Lefel, Hermon. Mae'r cynllun wedi ei baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Llythyr (27/9/2016) derbyniodd Peredur Jenkins oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod cafodd cyfarfod wythnos diweddfaf gyda Adrian Williams o'r Adran ynglŷn â'r Ffordd Lefel. Mae yn rhoi gwybod mae'r ffordd ar agor ond mae man waith angen ei wneud. Wedi gwblhau'r gwaith bydd yr arwyddion yn cael eu symud.

ch. Llythyr (5/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mai cwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Bala ar ddydd Mercher, 30/11/2016 am 6.30yh (cwrs lleol).

d. Llythyr (6/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 21, 2016 am 7.00yh. Amgau mae'r Agenda. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o'r Parc Cenedlaethol ar amodau 106, ac adolygiad Cynllun Datblygiad Lleol.

dd. Llythyr (8/9/2016) oddi wrth Wales Rally GB yn rhoi gwybod bydd rali ceir yn trafaelio trwy Brithdir ar ddydd Sadwrn, Hydref 29, 2016 rhwng 6.00 ac 8.00 y bore.

e. Llythyr (Medi 2016) oddi wrth Comisiwn Ffiniau Cymru yn rhoi gwybod eu bod wedi cyhoeddi Cynigion Cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholiadau Seneddol yng Nghymru. Os mae sylwadau maent eu hangen cyn Rhagfyr 5, 2016. Mae'r wybodaeth ar gael ar [www.bcomm-wales.hov.uk](http://www.bcomm-wales.hov.uk) <<http://www.bcomm-wales.hov.uk>>

f. Llythyr (12/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Criced, Dolgellau ar ddydd Mercher, Medi 21, 2016 am 7.00yh. Amgau mae'r Agenda. Bydd cyflwyniad yn cael ei roi gan Swyddog o'r Parc Cenedlaethol ar amodau 106, ac adolygiad Cynllun Datblygiad Lleol. Amgau hefyd mae cofnodion y Pwyllgor cynhaliwyd yn Tywyn ar Mai 25, 2016 a chofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol ym Llanfair y Mauallt ar Mehefin 10, 2016.

ff. Llythyr (15/9/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod maent eisiau ni gwblhau holiadur ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol / Asedau o Werth Cymunedol.

g. Llythyr (Medi 2016) oddi wrth Eluned Morgan, AC, Aelod Ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. Amgau mae holiadur i ni ei gwblhau iddi gael gwybod am ein hardal ac am ein barn ar y gwasanaethau rydym yn derbyn.

h. Llythyr (19/9/2016) oddi wrth Un Llais yn rhoi gwybod bydd Ardaloedd Cyflawnder Lleol yng Nghymru yn uno Gwynedd a Môn i greu ACLI Gogledd Orllewin Cymru.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

### a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/28C. Codi estyniad cefn unllawr. Tyddyn Mawr, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (10/8/2016).

ii. NP5/54/LB182A. Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu manylion simnai y festri a gosod stof llosg coed. Capel yr Annibynwyr, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (10/8/2016).

iii. NP5/54/453. Codi estyniadau a newidiadau. Cadwgan, Abergeirw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (26/8/2016).

b. Llythyr (10/8/2016) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn adolygu asesiad o fannau agored. Maent yn gwneud archwiliad o'r tir a ddefnyddir ar gyfer dibenion hamdden a mwynderau cyhoeddus ac angen ein cymorth i nodi mannau agored sydd ddim yn adnabyddus. Amgau mae holiadur i'w gwblhau a map yn dangos mannau agored.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

i. Cais cynllunio NP5/54/39L. Mae'r Awdurdod yn caniatáu codi adeilad ffrâm bren unllawr newydd i ddarparu dosbarth ychwanegol a gegin sgiliau bywyd a storfa ategol. Aran Hall School, Rhydymain.

ii. Cais cynllunio NP5/54/449A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Gosod colofn telathrebu 12m o uchder gyda offer ategol ynghyd a chabanau offer ar ran cwmni EE Cyf., (yn lle'r mast presennol). Tir yn Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

iii. Cais cynllunio NP5/54/28C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Codi estyniad cefn unllawr. Tyddyn Mawr, Rhydymain.

ch. Llythyr (25/8/2016) yn rhoi gwybod mae'r Awdurdod yn adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Maent eisiau adnabod tir newydd ar gyfer tai. Amgáu mae ffurflen i dirfeddianwyr i'w chwblhau a'i anfon i'r Awdurdod cyn 4/11/2016. Amgáu hefyd mae posteri i hysbysu'r broses am safleoedd; mae'r posteri wedi cael ei rhoi ar yr hysbysfyrdau'r gymuned..

## **8. Materion Ariannol**

- a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2016: £1,135.94.
- b. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2016: £5,559.15.
- c. Llythyr (24 Awst, 2016) oddi wrth Welsh Council Audits, BDO, ein harchwiliwr allanol, gyda sylwadau ar ein hadroddiad. Maent eisiau mwy o wybodaeth. Roeddynt eisiau:
1. Copi o'r Cofnodion oedd yn cymeradwyo y ffurflen flynyddol,
  2. Cywiro bocs 2 ar y ffurflen archwiliad blynyddol i ddweud ein bod yn monitro ein sefyllfa ariannol.
  3. Copi o'n gyllideb sy'n cefnogi ein cais am braesept 2015/16. Ni chafodd cyllideb ei pharatoi ond rhoddwyd gwybod iddynt fod y Cyngor yn wynebu costau ychwanegol oherwydd toriadau Cyngor Gwynedd.
  4. Rhoi gwybod bod ein hasedau sefydlog ddim wedi newid o 2014/2015. Roedd swm yr asedau wedi newid ac roedd hyn oherwydd y ffordd mai ein hyswiriant yn rhestru eitemau.

Rhoddwyd y wybodaeth iddynt ar Awst 29.

Roedd rhaid gwneud ymholiadau gyda AON, ein cwmni yswiriant, i gael gwybodaeth ar ein hasedau sefydlog oherwydd nid oeddynt yn cael eu dangos yn glir ar y polisi. Newidiwyd disgrifiadau'r eitemau yn 2015/2016.

Cafwyd llythyr ateb (2/9/2016) oddi wrth AON yn rhoi gwybod nid yw hasedau sefydlog yn cael eu rhestri yn unigol ond mewn grŵp.

Wedi gwneud ymholiadau bellach gyda AON cafwyd gwybod ganddynt (llythyr, 16/8/2016) nid ydy'n bosib parhau rhestri ein hasedau. Mae'n ddigonol i ein heitemau rhestredig, a'u gwerth, fod tu fewn cyfyngiad safonol.

ch. Llythyr (25/8/2016) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion o gyflog newydd y Clerc.

Taliad chwarterol i'r Clerc: £262.72.

Taliad chwarterol i Gyllid a Thollau EM: £65.60.  
£328.32.

Cyfanswm: £328.32 x 4 = £1,313.28 y flwyddyn. Gweler Cofnodion Gorffennaf 26, 2016 eitem 8.a.

Nid yw 'Cofrestru awtomatig' gyda chynllun pensiwn yn berthnasol i'r Clerc gan fod ei gyflog misol o dan derfyn enillion gros. Mater codwyd gan The Pensions Regulator mewn llythyr Gorffennaf 2016.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEDI 27, 2016

- d. Derbyniwyd Praesept (26/08/16) am £3,000.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd.
- dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Awst, 2016: £1,136.01.
- e. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2016: £5,559.15.

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

Gweler Eitem 6.c.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. angen tocio neu dorri coed rhwng Pont ar Ddibyn a top y Torrent i wella 'visibility' i drafnidiaeth sy'n defnyddio ffordd B4416.

ii. rhoi sylw i ffordd yn y goedwig Caerdefaid, Rhydymain. Mae tyllau ar wyneb y ffordd ac maent angen eu llenwi.

iii. rhoi sylw i ffordd Bwlch Goriwaered, Llanfachreth oherwydd cyflwr gwyneb y ffordd. Am fod hwn yn hen gwyn dymunwn gael gwybod pwy sy'n gyfrifol am y ffordd.

-----